



Cofnodion y Cyngor

Cyfarfod 182

Dyddiad y cyfarfod: Iau 6 Awst 2020

Lleoliad: Sŵm

Presennol: Phil George Cadeirydd (PG), Andrew Miller (AM), Lhosa Daly (LD),
(Sŵm) Gwennan Mair (GM), Devinda De Silva (DDS), Mike Griffiths (MG),
Kate Eden (KE), Tudur Hallam (TH), Sarah Younan (SY), Dafydd
Rhys (DRh), Andy Eagle (AE) a Victoria Provis (VP).

Yno: Nick Capaldi (NC), Diane Hebb (DH), Siân Tomos (ST), Andrew
(Sŵm) Richards (AR) a Katy Brown (cofnodion).

Ymddiheuriadau: Alison Mears Esswood (AMS), Iwan Bala (IB), Marian Wyn Jones
(MWJ) a Rebecca Nelson (RN).

Arsylwi: Gary Williams (GW) Llywodraeth Cymru
(Sŵm)

Cyfieithydd Lowri Gwyn (LG)

Statws y papur: I'w ryddhau i'r cyhoedd.

Eitem	Gweithredu
1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod Cyngor Celfyddydau Cymru drwy Sŵm.	
2. Datgan buddiannau Gofynnwyd am gofnodi'r datganiadau o fuddiant (yn atodiad i'r cofnodion). Gofynnodd KE am ychwanegu Cyngor Prifysgol Aberystwyth at ei datganiadau.	
3. Cofnodion y cyfarfod ar 3 Gorffennaf 2020 Cymeradwywyd y cofnodion yn rhai cywir.	
4. Materion sy'n codi	

Eitem	Gweithredu
<p>Roedd yr holl faterion dyledus wedi'u cyflawni.</p> <p><u>Datganiad Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys</u> Nododd PG fod y datganiad wedi cael derbyniad da ar y cyfan. Diolchodd PG i'r aelodau – a DDS, SY ac AM yn arbennig – am eu mewnbwn.</p>	
<p>5. Adroddiad y Cadeirydd Soniodd PG am y digwyddiadau a'r cyfarfodydd diweddar yr oedd wedi'u mynychu.</p> <p><u>Gwobrau Celfyddydau Anabledd Cymru</u> Anerchodd PG ddigwyddiad 'Tu mewn/Tu allan' ar Sŵm gan Gelfyddydau Anabledd Cymru a chyflwyno gwobr yno.</p> <p><u>Cyfarfod Gweinidogol</u> Cyfarfu PG â'r Dirprwy Weinidog. Cyfarfu hefyd â Jane Hutt AS i drafod gwaith y Cyngor ac amrywiaeth a rhannu â hi bwyntiau allweddol ein datganiad a'n cynllun gweithredu parthed 'Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys'.</p> <p><u>Penodi Ymddiriedolwyr – Amgueddfa Cymru ac Oriel Gelf Cymru</u> Gwahoddwyd PG i ymuno â phanel cyfweld Llywodraeth Cymru i benodi ymddiriedolwyr i'r Amgueddfa Genedlaethol fel aelod annibynnol o'r panel.</p> <p><u>Cyfarfod â Llenyddiaeth Cymru</u> Cyfarfu PG a'n staff â Llenyddiaeth Cymru i drafod Canmlwyddiant Raymond Williams yn 2021 a themâu allweddol ar gyfer y rhaglen o ddigwyddiadau. Mae'r prif gynlluniau'n canolbwyntio ar fanifesto i bobl ifanc.</p> <p><u>Grŵp Trawsbleidiol y Celfyddydau ac Iechyd</u> Roedd flog ar gyfer Cydffederasiwn y GIG y cyfrannodd PG ato. Roedd croeso cynnes i'n hymwneud â'r Celfyddydau ac Iechyd drwy ein gwaith datblygu gyda Chydffederasiwn GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p><u>Fio</u> Mynychodd PG ddau gyfarfod gyda nhw.</p>	

Eitem	Gweithredu
<p><u>AM Cymru</u> Cyfarfu PG ac NC ag Alun Llwyd a roddodd ddiweddariad am gyflawniadau'r llwyfan trawiadol hyd yma a thrafodaeth am bosibiliadau'r dyfodol.</p> <p><u>Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</u> Cyfarfu PG â'r Comisiynydd. Nododd fod swyddogion wrthi'n ymestyn eu partneriaethau gyda sefydliadau allweddol eraill yn y sector cyhoeddus. Yr un diweddaraf yw Cyfoeth Naturiol Cymru ac rydym wrthi'n gweithio ar Femorandwm Gyd-ddealltwriaeth a rennir â'r Cyngor a'r Uwch Dîm Arwain.</p> <p><u>Beth Nest? Caerdydd</u> Ymddangosodd PG ac NC yng nghyfarfod Chapter i drafod y Gronfa Ddiwylliannol. Yn ôl PG roedd cyflwyniad NC yn ddihafal.</p> <p><u>Pobl Greadigol Dduon</u> Mynychodd PG a NC y cyfarfod a hwyluswyd gan SY a DDS. Mae'r grŵp yn mireinio cynllun y gobeithir y bydd y Cyngor yn ei fabwysiadu fel ffordd o ddatblygu trafodaethau am Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys.</p>	
<p>6. Diweddariad am y pandemig Rhoddodd NC drosolwg o'r gwaith yn ystod y pandemig. Y prif newyddion oedd cyhoeddi £53 miliwn sydd wedi'u clustnodi ar gyfer Cronfa Adfer Ddiwylliannol i gelfyddydau Cymru.</p> <p>Mae swyddogion hefyd wedi bod yn cefnogi Llywodraeth Cymru i lunio canllawiau ar gyfer ailagor ac ailddechrau hyfforddiant, ymarfer a chynhyrchu ar draws y celfyddydau perfformio. Mae'n cyngor yn seiliedig ar ymgynghori'n helaeth ar draws y sector. Mae'r canllawiau bellach yn cael ei adolygu'n fanwl gan Lywodraeth Cymru a byddant ar gael yn y dyfodol agos.</p> <p><u>Rhaglenni'r Loteri Genedlaethol</u> Rydym ni o hyd yn atal y rhaglenni am weddill y flwyddyn. Ond rydym ni'n gweithio i weld pa arian y bydd modd ei gynnig. Rhaid i hyn ystyried ymbellhau cymdeithasol a'r goblygiadau ar gyfer y celfyddydau.</p>	

Eitem	Gweithredu
<p><u>Dychwelyd i swyddfeydd y Cyngor</u> Mae swyddogion yn gweithio i alluogi staff i ddychwelyd i weithio yn ein swyddfeydd mewn ffordd ddiogel o ran y feirws. Mae protocolau a chanllawiau ar waith.</p> <p>Diolchodd PG i'r NC am y diweddariad cynhwysfawr.</p> <p>Gofynnodd DRh a oedd yn hysbys pryd y deuai canllawiau Llywodraeth Cymru i'r fei am ailagor. Nid allai GW roi amserlen. Ond roedd y canllawiau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd ac ni chredai y cymerent lawer yn hwy.</p> <p>Roedd AM yn pryderu am y risg bosibl o gamddehongli anghenion pobl ag anabledau. Dywedodd NC fod nifer o gyfeiriadau at anghenion penodol pobl anabl a'r angen i beidio â chreu rhwystrau i bobl anabl mewn unrhyw ffordd.</p>	
<p>7. Canllawiau Ariannu Ataliodd y Cyngor holl raglenni'r Loteri Genedlaethol am hanner cyntaf y flwyddyn ariannol ac ail-bwrpasu'r arian i ymateb i'r pandemig. Byddai angen rhagor o arian yn ddiweddarach yn y flwyddyn i achub y sector rhag mynd i'r wal.</p> <p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o £53 miliwn mewn Cronfa Adfer Ddiwylliannol i Gymru. Roedd yr arian i bontio'r bwlch ar gyfer sefydliadau ac unigolion rhwng diwedd y cynllun seibiant yn Hydref 2020 a Mawrth 2021 yn y gobaith y bydd gweithgarwch wedi aildechrau erbyn hynny.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Cyngor reoli'r arian i'r celfyddydau.</p> <p>Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli'r arian i sefydliadau yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lleoliadau cerddorol ar lawr gwlad, sinemâu annibynnol, cyhoeddi, ffilm a theledu • amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau • sefydliadau digwyddiadau a gwyliau • sefydliadau treftadaeth <p>Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn rheoli'r holl arian i unigolion.</p>	

Eitem	Gweithredu
<p>Byddwn ni'n rheoli arian i sefydliadau sy'n gweithio yn y disgyblaethau yma:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cerddoriaeth • dawns • theatr • llenyddiaeth • y celfyddydau gweledol a chymhwysol • y celfyddydau cyfun • y celfyddydau digidol <p>Bwriad y gronfa yw ymateb i sefydliadau masnachol, awdurdodau lleol a Phrifysgol a ariennir yn gyhoeddus.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno'r cysyniad o Gontract Diwylliannol gan ddefnyddio arian i sbarduno newid trawsnewidiol, ymestyn cyrhaeddiad a chefnogi ffyrdd newydd o weithio.</p> <p>Cyflwynodd NC y canllawiau drafft i'r Cyngor gytuno arnynt yn derfynol.</p> <p>Y gobaith oedd ailagor gweddill arian y Loteri Genedlaethol yn 2020/21 yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</p> <p>Bydd y mesurau ymbellhau cymdeithasol yn lleihau'r seddi sydd ar gael i'r fath raddau fel mai dim ond rhwng 15% a 30% o seddi fydd ar gael i'w gwerthu, gan ddibynnu ar faint yr adeilad. Wrth gwrs mae faint o docynnau y gellir eu gwerthu'n pennu a yw'n economaidd i agor lleoliadau a theatrau (heb gymhorthdal). Cynhelir trafodaeth bellach gyda'r sector.</p> <p>Yn ôl yr amserlen ddrafft caiff y gronfa ei lansio ar 14 Awst, gyda'r dyddiad cau o 9 Medi. Cyflwynir yr argymhellion terfynol i'r Cyngor ar 16 Hydref.</p> <p>Roedd AM yn cymeradwyo pwyslais y canllawiau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chadw swyddi.</p> <p>Gofynnir i sefydliadau lunio cyfres o ymrwymadau hirdymor. Bwriad y swyddogion yw eu monitro ddwywaith, unwaith ym Mawrth a'r ail yn ddiweddarach.</p>	

Eitem	Gweithredu
<p>Canmolodd VP y swyddogion am eu gwaith caled ac eglurder y manylion. Gofynnwyd i NC a oedd yn hyderus bod digon o adnoddau o ran y staff i gyflawni'r rhaglen. Anogid y staff i gymryd gwyliau yn Awst a bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd o ddechrau Medi. Efallai y bydd angen amser ychwanegol a chynigiwyd cymorth ychwanegol gan y Llywodraeth.</p> <p>Barn KE oedd bod y gronfa'n wych a gofynnodd am fanylion am y Contract Diwylliannol. Y bwriad oedd ategu Contract Economaidd y Llywodraeth ond i raddau mae'r un diwylliannol wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.</p> <p>Mae swyddogion yn casglu a dadansoddi data o rowndiau cynnar y gronfa wytnwch ac o seibiant gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.</p> <p>Cymeradwywyd cyhoeddi'r canllawiau.</p>	
<p>8. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Gwener 4 Medi 2020 – Sŵm</p>	

Cyfarfod y Cyngor:
Iau 6 Awst 2020

Crynodeb o'r camau gweithredu a'r penderfyniadau

Nid oedd dim.